Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru Adroddiad Blynyddol 2015 – 2016

Chwefror 2018

Tribiwnlys Anghenion
Addysgol Arbennig Cymru

Special Educational
Needs Tribunal for Wales

Cynnwys

Rhagair		3
Adran 1	Amdanom ni	5
Adran 2	Perfformiad a Chynnydd	8
Adran 3	Ein Cwsmeriaid	25
Adran 4	Blaenoriaethau Busnes	26
Adran 5	Gwariant	27

OGL © Hawlfraint y Goron 2018 WG30170 ISBN digidol 978-1-4734-8073-5

Rhagair

Dyma fy 13eg Adroddiad Blynyddol fel Llywydd Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru, sy'n cwmpasu'r cyfnod Medi 2015 hyd Awst 2016.

Ein nod yw sicrhau bod y Tribiwnlys yn gwasanaethu er budd pobl yng Nghymru sydd ag anghydfod sy'n dod o dan ein hawdurdodaeth, drwy ymdrin ag anghydfod o'r fath yn effeithlon ac yn effeithiol. Yn benodol, rydym yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod pawb sy'n rhan o'r anghydfod yn fodlon bod yr anghydfod wedi'i ddatrys yn deg, a hynny o fewn cyn lleied o amser ag sy'n rhesymol.

Fel y gwelir o'r ystadegau a nodir yn yr Adroddiad, mae nifer yr holl apeliadau wedi cynyddu eto yn y cyfnod hwn. Mae hyn yn parhau â'r duedd o gynnydd o flwyddyn i flwyddyn, ar gyfartaledd o 11% bob blwyddyn . Eto, eleni, mae gennym nifer fawr o apeliadau gwrthod asesu ac mae'n siomedig gorfod cofnodi eto bod 79% o'r rhain wedi cael cydsyniad gan yr awdurdod lleol. Credaf y gallai'r duedd hon barhau wrth i'r ddeddfwriaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol gael ei diwygio, gan y gallai rhieni fod yn awyddus i gael Datganiad o dan system y maent yn gyfarwydd â hi eisoes. Rydym ni hefyd wedi gweld cynnydd yn nifer yr hawliadau Gwahaniaethu ar sail Anabledd eleni, gyda chynnydd o 40% ers y llynedd.

Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi cyflwyno Gorchmynion Cydsynio. Gwelsom, pan setlwyd apeliadau, bod partïon yn tynnu'r apeliadau yn ôl yn aml ac nad oedd cofnod cywir, mewn sawl achos, o'r hyn yr oedd y partïon wedi cytuno arno. Yn awr, gyda phob apeliad sydd wedi'i setlo, rhaid i'r partïon gyflwyno eu datganiadau diwygiedig a chaiff gorchymyn cydsynio ei lunio fel bod pawb yn gwybod beth sydd wedi'i gytuno.

Yn ystod y flwyddyn, mae maint y bwndelau sy'n cael eu paratoi ar gyfer gwrandawiadau wedi dechrau peri pryder imi. Gallant fod yn fwy na 1,000 o dudalennau o hyd. Yn aml maent yn ailadroddus ac weithiau nid ydynt yn cynnwys peth gwybodaeth berthnasol a fyddai o gymorth mawr i'r Tribiwnlys. Rwyf wedi codi'r mater yng nghyfarfodydd ein grŵp defnyddwyr ac rwyf wedi gofyn i'n defnyddwyr am eu mewnbwn. Byddaf yn edrych ar y mater hwn ymhellach dros y 12 mis i ddod, yn y gobaith y gellir dod o hyd i ateb fydd yn arbed amser a chostau i bob parti.

Mater arall sy'n peri pryder yw'r anhawsterau a brofwyd gan rieni sy'n dweud nad yw Awdurdodau Lleol yn cydymffurfio â Gorchmynion y Tribiwnlys. Yr unig beth y gall rhieni ei wneud mewn sefyllfa o'r fath yw cyfeirio'r mater at Lywodraeth Cymru. Gall hyn fod yn broses hir, gan orfodi'r rhieni i ddarparu dogfennaeth y maent eisoes wedi'i chyflwyno i'r Tribiwnlys i esbonio'u hachos. Rydym wedi awgrymu y byddai'n fwy synhwyrol i rieni gyflwyno'r mater i TAAAC i'w ystyried ac, os yw TAAAC o'r farn nad oes cydymffurfiaeth â'i orchymyn, bod TAAAC yn anfon y ddogfennaeth berthnasol i Lywodraeth Cymru, ynghyd â chofnod o'i gasgliadau, er mwyn i Lywodraeth Cymru gael cymryd camau pellach. Rydym yn obeithiol y caiff hyn ei fabwysiadu.

Yn ystod y flwyddyn hon, mae proses fwy ffurfiol wedi'i rhoi ar waith i ddod ag Arweinwyr Barnwrol Tribiwnlysoedd sy'n gweithredu yng Nghymru ynghyd. Cynhelir cyfarfodydd yn rheolaidd ac mae'n fforwm defnyddiol iawn i drafod unrhyw broblemau neu bryderon sydd gan yr Arweinwyr Barnwrol am eu Tribiwnlysoedd.

Yn dilyn proses benodi gyhoeddus lwyddiannus, roeddwn yn falch iawn o groesawu tri aelod lleyg newydd i'r Tribiwnlys, sef Ms Catherine Pape, Dr Natalie O'Neill a Mr Rhys Wyn Parri. Mae ganddynt oll wybodaeth ar lefel uchel iawn ac arbenigedd ym maes addysg. Edrychaf ymlaen yn fawr iawn at weithio gyda hwy yn eu rôl newydd.

Rydym yn wynebu heriau newydd yn y 12 mis i ddod gyda'r diwygiadau a ragwelir ym maes Anghenion Addysgu Ychwanegol. Rydym yn aros o hyd am yr ymgynghoriad ar y Cod Ymarfer. Y gobaith yw y bydd hwnnw'n rhoi mwy o wybodaeth inni am sut y bydd y Bil yn gweithio'n ymarferol. Rydym ni yn y Tribiwnlys wedi ymateb i'r ymgynghoriadau gan nodi'n barn a'n pryderon. Byddwn yn parhau i fonitro'r sefyllfa'n ofalus iawn. Gyda'n Cadeiryddion, ein Haelodau, a'n Hysgrifenyddiaeth ymroddedig, hyderaf y gall TAAAC gyflawni'r heriau sydd i ddod. Hoffwn ddiolch iddyn nhw oll am eu cefnogaeth dros y flwyddyn ddiwethaf.

Rhiannon Walker
Llywydd Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru

Adran 1 – Amdanom ni

Yn yr adran hon:

- Sail TAAAC
- Swyddogaeth TAAAC
- Rheoliadau TAAAC
- Proses TAAAC
- Aelodau TAAAC
- Penodiadau
- Hyfforddiant
- Cysylltu â TAAAC
- Defnyddio TAAAC

Sail TAAAC

Mae Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (TAAAC) yn dribiwnlys annibynnol a gafodd ei sefydlu yn 2003, yn unol ag Adran 333 (1ZA) Deddf Addysg 1996. Mae TAAAC, ei aelodau a'u penderfyniadau yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol (ALlau) ac mae ein penderfyniadau yn gyfreithiol rwymol. Llywodraeth Cymru sy'n ariannu TAAAC a'i weinyddiaeth.

Ers 5 Ionawr 2015, mae plant a phobl ifanc wedi gallu cyflwyno eu hapêl neu eu hawliad eu hunain i TAAAC. Hawl newydd yw hon nad yw'n effeithio ar hawliau presennol rhieni na gwarcheidwaid i gyflwyno apêl i TAAAC. Cyflwynwyd yr hawl newydd hon gan Fesur Addysg (Cymru) 2009, a ddiwygiodd ddarpariaethau dan Ddeddf Addysg 1996.

Swyddogaeth TAAAC

Mae TAAAC yn gwrando ac yn penderfynu ar apeliadau sy'n ymwneud â phlant ag anghenion addysgol arbennig. Rhieni sy'n gwneud yr apeliadau, ac maent yn erbyn rhai penderfyniadau a wneir gan yr ALl ynglŷn ag addysg plentyn. Mae TAAAC hefyd yn gwrando ar hawliadau mewn perthynas ag achosion honedig o wahaniaethu ar sail anabledd mewn ysgolion yng Nghymru.

Rheoliadau TAAAC

Mae TAAAC yn gweithredu yn unol â'i reoliadau gweithdrefnol a deddfwriaeth gysylltiedig arall. Mae'r rheoliadau'n sicrhau bod pob achos a glywir gan TAAAC yn cael ei drin yn deg, yn gyson, yn brydlon ac yn gyfiawn. Maent yn sicrhau bod pawb sy'n dod gerbron TAAAC yn deall yn glir y camau mae'n rhaid iddynt eu dilyn er mwyn cyflwyno ffeithiau'r anghydfod a'r dadleuon perthnasol yn effeithiol i TAAAC. Maent hefyd yn sicrhau bod bob parti mewn achos yn deall dadleuon y parti arall ac yn gallu ymateb iddynt.

Caiff gweithdrefnau TAAAC eu llywodraethu gan y ddeddfwriaeth ganlynol:

- Rheoliadau Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru 2012
- Deddf Addysg 1996
- Deddf Cydraddoldeb 2010
- Mesur Addysg (Cymru) 2009.

Proses TAAAC

Mae'n rhaid i unrhyw un sy'n awyddus i wneud hawliad neu apêl i TAAAC lenwi ac anfon y ffurflen gais berthnasol i TAAAC.

Mewn gwrandawiad TAAAC mae'r panel yn cynnwys Cadeirydd sy'n gyfreithiol gymwys a dau Aelod o'r Panel Addysg. Mae'r Aelodau o fyd Addysg wedi cael eu penodi oherwydd eu harbenigedd cyffredinol a'u gwybodaeth am y byd addysg.

Fel arfer caiff gwrandawiadau TAAAC eu cynnal yn breifat mewn lleoliad sy'n agos at gartref y ceisydd.

Aelodau TAAAC

Yr Arglwydd Ganghellor sy'n gyfrifol am benodi ac ailbenodi'r Llywydd a'r Cadeiryddion. Gweinidogion Cymru sy'n penodi aelodau'r panel o fyd addysg.

Y Llywydd:	Y Llywydd sy'n gyfrifol am reolaeth farnwrol gyffredinol y Tribiwnlys.
Y Cadeiryddion:	Rheolir gwrandawiadau'r Tribiwnlys gan Gadeirydd, ac mae'n rhaid iddo fod yn gyfreithiol gymwys. Bydd yn ysgrifennu ac yn llofnodi penderfyniadau, rhoi gwybod am ohiriadau a phennu cyfarwyddiadau lle bo angen.
Aelodau'r Panel o Fyd Addysg:	Mae Aelodau'r Panel o fyd Addysg yn dod ag ystod eang o brofiadau a gwybodaeth berthnasol i bob Gwrandawiad. Maent yn eistedd mewn achosion sy'n ymwneud ag Apeliadau Anghenion Addysgol Arbennig a Hawliadau Gwahaniaethu ar sail Anabledd.
Yr Ysgrifenyddiaeth:	Yr Ysgrifenyddiaeth sy'n gyfrifol am y gwaith gweinyddol o ddydd i ddydd, gan ddelio â'r holl waith papur rhagarweiniol a phrosesu ceisiadau i'r Tribiwnlys. Mae'r Ysgrifenyddiaeth yn ymgynghori â'r Llywydd ar unrhyw bwyntiau cyfreithiol sy'n codi yn ystod apeliadau neu hawliadau ac yn trosglwyddo Cyfarwyddiadau'r Llywydd yn ysgrifenedig i bartïon yr achos. Mae'r ysgrifenyddiaeth yn bwynt cyswllt ar gyfer y Llywydd, Aelodau a phartïon yr achos ac mae clerc yn bresennol ym mhob gwrandawiad i sicrhau bod achosion yn mynd rhagddynt yn effeithlon.



Penodiadau

Penodwyd 3 aelod lleyg newydd i Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru yn ystod cyfnod yr adroddiad.

Hyfforddiant

Cynhaliwyd cynhadledd hyfforddiant i'r holl aelodau ym mis Tachwedd 2015. Hefyd, cynhaliwyd hyfforddiant cyfreithiol ym mis Mawrth 2016. Dechreuodd 3 aelod lleyg newydd eu hyfforddiant ymsefydlu hefyd.

Cysylltu â TAAAC

I gysylltu ag Ysgrifenyddiaeth TAAAC:

Cyfeiriad TAAAC: Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru
Adeiladau'r Llywodraeth
Spa Road East
Llandrindod
Powys
LD1 5HA

Llinell Gymorth TAAAC: 03000 259800

Ffacs TAAAC: 03000 259801

E-bost TAAAC: tribunalenquiries@llyw.cymru

Defnyddio TAAAC

Mae TAAAC yn hapus i gyfathrebu â chi yn Gymraeg neu yn Saesneg. Os nad oes unrhyw un sy'n siarad Cymraeg ar gael ar unwaith, byddwn yn trefnu i aelod o staff sy'n siarad Cymraeg eich ffonio chi'n ôl.

Gallwch ddewis cynnal eich gwrandawiad yn Gymraeg neu yn Saesneg. Os nad Cymraeg na Saesneg yw eich iaith gyntaf a'ch bod yn dymuno siarad yn eich iaith gyntaf yn ystod y gwrandawiad, gallwn drefnu i gyfieithydd fod yn bresennol. Os oes angen i ddehonglydd iaith arwyddion ddod i'r gwrandawiad, fe wnawn drefnu hynny.

Gwneir darpariaeth os oes anabledd neu ofynion eraill o ran mynediad gennych chi, neu unrhyw un sy'n dod gyda chi i'r gwrandawiad a allai effeithio ar ein trefniadau ar gyfer y gwrandawiad.

Er mwyn gallu trefnu i gael dehonglwyr neu er mwyn darparu ar gyfer unrhyw anghenion ychwanegol rhaid rhoi digon o rybudd i'r ysgrifenyddiaeth ymlaen llaw.

Adran 2 – Perfformiad a Chynnydd

Yn yr adran hon:

- Niferoedd ac ystadegau
- Data Gwrandawiadau
- Adolygiadau ac apeliadau pellach
- Cyflawni mewn perthynas â dangosyddion perfformiad allweddol
- Cwynion

Niferoedd ac Ystadegau

Mae blwyddyn Tribiwnlys yn rhedeg o fis Medi i fis Awst. Dyma'r ystadegau a gesglir:

Apeliadau a dderbyniwyd ac yr ymdriniwyd â nhw yn 2015-16, o'i gymharu â 2014-15	Siart 2.1	Tudalen 9
Mathau o apeliadau a gofrestrwyd yn ystod 2015-16, o'i gymharu â 2014-15	Tabl 2.2	Tudalen 9
Apeliadau a gofrestrwyd yn ystod 2015-16 yn ôl awdurdod lleol, o'i gymharu â 2014-15	Tabl 2.3	Tudalen 10
Apeliadau a gofrestrwyd yn ystod 2015-16 yn ôl awdurdod lleol a'r math o apêl (Rhan 1)	Tabl 2.4	Tudalen 11
Apeliadau a gofrestrwyd yn ystod 2015-16 yn ôl awdurdod lleol a'r math o apêl (Rhan 2)	Tabl 2.4	Tudalen 12
Apeliadau a gofrestrwyd yn ystod 2015-16 am bob 10,000 o boblogaeth ysgol ym mhob awdurdod lleol, o'i gymharu â 2014-15	Siart 2.5	Tudalen 13
Apeliadau a gofrestrwyd yn ystod 2015-16 yn ôl oedran ysgol a'r math o apêl	Tabl 2.6	Tudalen 14
Apeliadau a gofrestrwyd yn ystod 2015-16 yn ôl oedran ysgol ac awdurdod lleol	Tabl 2.7	Tudalen 15
Apeliadau a gofrestrwyd yn ystod 2015-16 yn ôl anghenion addysgol arbennig, o'i gymharu â 2014-15	Siart 2.8	Tudalen 16
Apeliadau a gofrestrwyd yn ystod 2015-16 yn ôl rhywedd	Siart 2.9	Tudalen 17
Apeliadau a gofrestrwyd yn ystod 2015-16 yn ôl tarddiad ethnig	Siart 2.10	Tudalen 17
Apeliadau yn ôl canlyniad 2015-16, o'i gymharu â 2014-15	Tabl 2.11	Tudalen 18
Apeliadau yn ôl canlyniad a math o apêl 2015-16 (Rhan 1)	Tabl 2.12	Tudalen 19
Apeliadau yn ôl canlyniad a math o apêl 2015-16 (Rhan 2)	Tabl 2.12	Tudalen 19
Apeliadau yn ôl canlyniad ac awdurdod lleol 2015-16	Tabl 2.13	Tudalen 20
Hawliadau sy'n ymwneud ag achosion honedig o wahaniaethu ar sail anabledd a gofrestrwyd ac yr ymdriniwyd â nhw yn 2015-16, o'i gymharu â 2014-15	Siart 2.14	Tudalen 21
Mathau o hawliadau a gofrestrwyd yn ystod 2015-16, o'i gymharu â 2014-15	Tabl 2.15	Tudalen 21
Hawliadau sy'n ymwneud ag achosion honedig o wahaniaethu ar sail anabledd yn ôl canlyniad yn 2015-16, o'i gymharu â 2014-15	Siart 2.16	Tudalen 22
Ceisiadau llywyddol yn ystod 2015-16	Siart 2.17	Tudalen 22

Siart 2.1 Apeliadau a dderbyniwyd ac yr ymdriniwyd â nhw yn 2015-16 o'i gymharu â 2014-15



Tabl 2.2 Mathau o apeliadau a gofrestrwyd yn ystod 2015-16, o'i gymharu â 2014-15

Math o Apêl	2015-2016		2014-2015	
	Cyfanswm yr Apeliadau 108		Cyfanswm yr Apeliadau 101	
Gwrthod asesu	45	41%	40	40%
Gwrthod Rhoi Datganiad	10	9%	14	14%
Gwrthod Ailasesu	3	3%	0	0%
Dirwyn Datganiad i Ben	2	2%	0	0%
Cynnwys Datganiad Rhannau 2 a 3	11	10%	11	11%
Cynnwys Datganiad Rhannau 2, 3 a 4	25	23%	18	18%
Cynnwys Datganiad Rhan 3 yn unig	4	4%	8	8%
Cynnwys Datganiad Rhan 4 yn unig	5	5%	8	8%
Cynnwys Datganiad Rhannau 3 a 4	3	3%	2	2%

Tabl 2.3 Apeliadau a gofrestrwyd yn ystod 2015-16 yn ôl awdurdod lleol, o'i gymharu â 2014-15

	2015-2016		2014-2015	
	Nifer yr Apeliadau	Canran yr Apeliadau	Nifer yr Apeliadau	Canran yr Apeliadau
Blaenau Gwent	0	0%	0	0%
Pen-y-bont ar Ogwr	9	8%	5	5%
Caerffili	1	1%	6	6%
Caerdydd	9	8%	10	10%
Sir Gaerfyrddin	3	3%	1	1%
Ceredigion	7	6%	3	3%
Conwy	12	11%	11	11%
Sir Ddinbych	4	4%	3	3%
Sir y Fflint	2	2%	3	3%
Gwynedd	2	2%	1	1%
Merthyr Tudful	1	1%	2	2%
Sir Fynwy	4	4%	4	4%
Castell-nedd Port Talbot	0	0%	6	6%
Casnewydd	12	11%	10	10%
Sir Benfro	3	3%	5	5%
Powys	8	7%	11	11%
Rhondda Cynon Taf	6	6%	2	2%
Abertawe	12	11%	10	10%
Torfaen	4	4%	6	6%
Bro Morgannwg	7	6%	2	2%
Wrecsam	2	2%	0	0%
Ynys Môn	0	0%	0	0%

Tabl 2.4 Apeliadau a gofrestrwyd yn ystod 2015-16 yn ôl awdurdod lleol a'r math o apêl (Rhan 1)

	Gwrthod asesu	Gwrthod rhoi Datganiad	Gwrthod ailasesu	Peidio â Pharhau
Blaenau Gwent	0	0	0	0
Pen-y-bont ar Ogwr	4	1	0	0
Caerffili	1	0	0	0
Caerdydd	2	2	0	0
Sir Gaerfyrddin	1	1	0	0
Ceredigion	3	0	0	1
Conwy	5	1	0	0
Sir Ddinbych	1	0	2	0
Sir y Fflint	0	1	0	0
Gwynedd	1	1	0	0
Merthyr Tudful	0	0	0	0
Sir Fynwy	1	1	0	0
Castell-nedd Port Talbot	0	0	0	0
Casnewydd	8	0	0	0
Sir Benfro	0	1	0	0
Powys	3	1	0	0
Rhondda Cynon Taf	4	0	0	0
Abertawe	5	0	1	1
Torfaen	3	0	0	0
Bro Morgannwg	3	0	0	0
Wrecsam	0	0	0	0
Ynys Môn	0	0	0	0

Tabl 2.4 Apeliadau a gofrestrwyd yn ystod 2015-16 yn ôl awdurdod lleol a'r math o apêl (Rhan 2)

	Cynnwys Datganiad Rhannau 2 a 3	Cynnwys Datganiad Rhannau 2, 3 a 4	Cynnwys Datganiad Rhan 3	Cynnwys Datganiad Rhannau 3 a 4	Cynnwys Datganiad Rhan 4
Blaenau Gwent	0	0	0	0	0
Pen-y-bont ar Ogwr	2	2	0	0	0
Caerffili	0	0	0	0	0
Caerdydd	0	5	0	0	0
Sir Gaerfyrddin	1	0	0	0	0
Ceredigion	0	2	1	0	0
Conwy	0	5	0	1	0
Sir Ddinbych	0	1	0	0	0
Sir y Fflint	1	0	0	0	0
Gwynedd	0	0	0	0	0
Merthyr Tudful	1	0	0	0	0
Sir Fynwy	0	2	0	0	0
Castell-nedd Port Talbot	0	0	0	0	0
Casnewydd	1	2	0	1	0
Sir Benfro	1	0	1	0	0
Powys	0	3	0	0	0
Rhondda Cynon Taf	0	1	0	0	1
Abertawe	0	0	2	0	3
Torfaen	0	0	0	0	1
Bro Morgannwg	2	2	0	1	0
Wrecsam	2	0	0	0	0
Ynys Môn	0	0	0	0	0

Siart 2.5 Apeliadau a gofrestrwyd yn ystod 2015-16 am bob 10,000 o boblogaeth ysgol ym mhob awdurdod lleol, o'i gymharu â 2014-15



Tabl 2.6 Apeliadau a gofrestrwyd yn ystod 2015-16 yn ôl oedran ysgol a'r math o apêl

	Nifer yr apeliadau			
	Meithrinfa	Cynradd	Pontio Cynradd[1]	Uwchradd
Gwrthod Asesu	2	34	4	5
Gwrthod Rhoi Datganiad	0	9	0	1
Cynnwys Datganiad Rhannau 2 a 3	0	8	0	3
Cynnwys Datganiad Rhannau 2, 3 a 4	0	10	3	12
Cynnwys Datganiad Rhan 3	0	3	0	1
Cynnwys Datganiad Rhannau 3 a 4	0	2	0	1
Cynnwys Datganiad Rhan 4	0	3	2	0
Gwrthod Ailasesu	0	1	0	2
Dirwyn Datganiad i Ben	0	0	0	2
Cyfanswm	2	70	9	27

[1] Pontio cynradd – blwyddyn olaf addysg gynradd cyn dechrau ysgol uwchradd.

Tabl 2.7 Apeliadau a gofrestrwyd yn ystod 2015-16 yn ôl oedran ysgol ac awdurdod lleol

	Nifer yr apeliadau			
	Meithrinfa	Cynradd	Pontio Cynradd	Uwchradd
Blaenau Gwent	0	0	0	0
Pen-y-bont ar Ogwr	0	7	0	2
Caerffili	0	1	0	0
Caerdydd	0	3	2	4
Sir Gaerfyrddin	0	2	0	1
Ceredigion	0	4	0	3
Conwy	0	6	1	5
Sir Ddinbych	0	2	0	2
Sir y Fflint	0	0	0	2
Gwynedd	0	2	0	0
Merthyr Tudful	0	0	0	1
Sir Fynwy	0	3	0	1
Castell-nedd Port Talbot	0	0	0	0
Casnewydd	1	10	1	0
Sir Benfro	0	3	0	0
Powys	0	5	1	2
Rhondda Cynon Taf	0	5	1	0
Abertawe	1	5	3	3
Torfaen	0	4	0	0
Bro Morgannwg	0	6	0	1
Wrecsam	0	2	0	0
Ynys Môn	0	0	0	0
Cyfanswm	2	70	9	27

Siart 2.8 Apeliadau a gofrestrwyd yn ystod 2015-16 yn ôl anghenion addysgol arbennig, o'i gymharu â 2014-15



Siart 2.9 Apeliadau a gofrestrwyd yn ystod 2015-16 yn ôl rhywedd



Siart 2.10 Apeliadau a gofrestrwyd yn ystod 2014-15 yn ôl tarddiad ethnig



Tabl 2.11 Apeliadau yn ôl canlyniad 2015-16 o'i gymharu â 2014-15

	2015-2016		2014-2015	
	Gwirioneddol	Canran	Gwirioneddol	Canran
Cydsyniwyd[2]	38	30%	33	29%
Tynnwyd yn ôl[3]	20	16%	41	36%
Tynnwyd yn ôl gyda chytundeb	15	12%	AMH *	AMH *
Cadarnhawyd yn Llawn	15	12%	10	9%
Cadarnhawyd yn Rhannol	3	2%	4	4%
Gwrthodwyd	9	7%	5	4%
Dychwelwyd[4]	0	0%	0	0%
Dilëwyd[5]	1	1%	3	3%
Ar y gweill[6]	26	20%	17	15%
Cyfanswm	127	100%	113	100%

* AMH = Amherthnasol

[2] Cydsyniwyd – caiff achosion gydsyniad pan fydd ALl yn rhoi gwybod i'r Tribiwnlys nad yw'n gwrthwynebu'r apêl bellach ac mae wedi cytuno i wneud yr hyn mae'r apelydd wedi'i ofyn yn ei apêl.

[3] Tynnwyd yn ôl – bydd achosion yn cael eu tynnu'n ôl pan nad yw'r apelydd yn awyddus i barhau â'i apêl rhagor. Caiff apeliad ei dynnu'n ôl gyda chytundeb pan fydd partion wedi dod i gytundeb a'r rhiant yn cytuno i dynu'r apeliad yn ôl yn amodol ar ddigwyddiadau y cytunir arnynt.

[4] Dychwelwyd – mae'r tribiwnlys yn penderfynu y dylid anfon yr apêl yn ôl at yr ALl iddo gael ailystyried ei benderfyniad gwreiddiol.

[5] Dilëwyd – caiff achosion eu dileu pan nad yw/na fydd yn berthnasol i awdurdodaeth y tribiwnlys eu hystyried rhagor. Bydd hyn yn dod â'r apêl i'w derfyn.

[6] Ar y gweill – mae achos ar y gweill gyda'r tribiwnlys.

Tabl 2.12 Apeliadau yn ôl canlyniad a math o apêl 2015-16 (Rhan 1)

	Gwrthod asesu	Gwrthod rhoi Datganiad	Gwrthod ailasesu	Peidio â Pharhau
Cydsyniwyd	30	2	0	0
Tynnwyd yn ôl	6	1	2	1
Cadarnhawyd yn Llawn	0	3	0	0
Cadarnhawyd yn Rhannol	0	0	0	0
Gwrthodwyd	2	2	0	0
Dychwelwyd	0	0	0	0
Dilëwyd	0	0	0	1
Ar y gweill	6	2	1	0
Cyfanswm	44	10	3	2

Tabl 2.12 Apeliadau yn ôl canlyniad a math o apêl 2015-16 (Rhan 2)

	Cynnwys Datganiad Rhannau 2 a 3	Cynnwys Datganiad Rhannau 2, 3 a 4	Cynnwys Datganiad Rhan 3	Cynnwys Datganiad Rhannau 3 a 4	Cynnwys Datganiad Rhan 4
Cydsyniwyd	0	0	0	0	2
Tynnwyd yn ôl	4	9	2	2	2
Cadarnhawyd yn Llawn	1	5	0	1	1
Cadarnhawyd yn Rhannol	0	0	3	0	0
Gwrthodwyd	0	0	0	0	0
Dychwelwyd	0	0	0	0	0
Dilëwyd	0	0	0	0	0
Ar y gweill	6	8	2	0	0
Cyfanswm	11	22	7	3	5

Tabl 2.13 Apeliadau yn ôl canlyniad ac awdurdod lleol 2015-16

	Cydsyniwyd	Tynnwyd yn ôl	Tynnwyd yn ôl gyda chytundeb	Cadarnhawyd yn Llawn	Cadarnhawyd yn Rhannol	Gwrthodwyd	Dilewyd	Ar y gweill
Blaenau Gwent	0	0	0	0	0	0	0	0
Pen-y-bont ar Ogwr	4	2	2	0	0	0	0	3
Caerffili	0	1	0	0	0	0	0	0
Caerdydd	3	1	3	3	0	2	0	0
Sir Gaerfyrddin	2	0	0	0	0	0	0	1
Ceredigion	1	0	1	1	1	2	1	1
Conwy	5	2	4	1	0	1	0	3
Sir Ddinbych	0	2	0	2	0	1	0	1
Sir y Fflint	0	0	1	1	0	0	0	0
Gwynedd	0	1	0	0	0	0	0	1
Merthyr Tydful	0	0	0	0	0	0	0	1
Sir Fynwy	2	0	0	1	0	0	0	1
Castell nedd Port Talbot	0	0	0	0	0	0	0	0
Casnewydd	5	2	1	1	1	0	0	2
Sir Benfro	0	0	2	0	0	1	0	1
Powys	0	2	0	2	1	2	0	2
Rhondda Cynon Taf	4	0	0	0	0	0	0	3
Abertawe	6	3	1	2	0	0	0	3
Torfaen	3	1	0	0	0	0	0	0
Bro Morgannwg	3	1	0	1	0	0	0	3
Wrecsam	0	2	0	0	0	0	0	0
Ynys Môn	0	0	0	0	0	0	0	0
Cyfanswm	38	20	15	15	3	9	1	26

Siart 2.14 Hawliadau sy'n ymwneud ag achosion honedig o wahaniaethu ar sail anabledd a gofrestrwyd ac yr ymdriniwyd â nhw yn 2015-16, o'i gymharu â 2014-15



Tabl 2.15 Mathau o hawliadau a gofrestrwyd yn ystod 2015-16, o'i gymharu â 2014-15

Math o hawliad	2015-2016		2014-2015	
	Cyfanswm yr hawliadau 9		Cyfanswm yr hawliadau 6	
Derbyn	1	10%	0	0%
Addysg	2	20%	4	67%
Gwaharddiadau	7	70%	2	33%

Siart 2.16 Hawliadau sy'n ymwneud ag achosion honedig o wahaniaethu ar sail anabledd yn ôl canlyniad yn 2015-16, o'i gymharu â 2014-15



Siart 2.17 Ceisiadau llywyddol[7] yn ystod 2015-2016



[7] Ceisiadau llywyddol – bydd yr ysgrifenyddiaeth yn anfon ceisiadau at y Llywydd i'w hystyried mewn perthynas ag amrywiol agweddau cyfreithiol ar achosion.

Data Gwrandawiadau

Yn ystod 2015-2016, aeth 41 o achosion ymlaen i wrandawiad, gan arwain at gyfanswm o 51 o ddiwrnodau gwrandawiad:

Math	Hyd (diwrnodau)
Apeliad	39 diwrnod gwrandawiad
Hawliad	12 diwrnod gwrandawiad

Cynhaliwyd 10 cynhadledd dros y ffôn hefyd, a phenderfynwyd ar 2 wrandawiad ar sail y papurau.

Adolygiadau ac apeliadau pellach

Gall partïon wneud ceisiadau am adolygu penderfyniad y Tribiwnlys ar sail gyfyngedig. Dros gyfnod yr adroddiad hwn, gwnaed un cais, ond cafodd ei dynnu'n ôl yn nes ymlaen.

Gall partïon ofyn am ganiatâd y Tribiwnlys i wneud cais i'r Uwch Dribiwnlys os ydynt yn meddwl bod penderfyniad y Tribiwnlys yn anghywir o safbwynt y gyfraith. Dros gyfnod yr adroddiad hwn, gwnaethpwyd 1 cais am ganiatâd. Gwrthododd y Tribiwnlys ganiatâd. Wedi hynny caniatawyd yr Apeliad gan yr Uwch Dribiwnlys, ac mae penderfyniad terfynol i ddod.

Cyflawni mewn perthynas â dangosyddion perfformiad allweddol

Er mwyn monitro pa mor effeithiol y caiff gwasanaethau eu darparu, mae gennym ni ddangosyddion perfformiad allweddol sydd â'r nod o fesur dwy agwedd allweddol ar ein busnes; sef cyflymder ein gwasanaeth ac ansawdd y gwasanaeth drwy foddhad cwsmeriaid.

Er mwyn mesur cyflymder ein gwasanaeth, mae gennym ni gyfres o ddangosyddion perfformiad sylfaenol sy'n seiliedig ar yr amser a gymerir i brosesu cais – o'r adeg y bydd cais yn cyrraedd i'r adeg y gwrandewir arno, neu'r adeg y caiff ei gwblhau (gweler isod). Er mwyn mesur boddhad cwsmeriaid, defnyddiwyd dangosydd o arolygon cyfnodol ar foddhad cwsmeriaid a gyhoeddwyd wrth i achos ddod i ben (gweler adran 3).

Cyflymder ein gwasanaeth

Targed: Trin 95% o'r ymholiadau cyn-cofrestru cyn pen 10 niwrnod gwaith ar ôl derbyn y Ffurflen Hawlio/Apêl	→	Cyrhaeddwyd y targed mewn 100% o'r achosion
Targed: Cofrestru 95% o Apeliadau/ Hawliadau cyn pen 10 niwrnod gwaith ar ôl derbyn y Ffurflen Hawlio/Apêl	→	Cyrhaeddwyd y targed mewn 98% o'r achosion
Targed: Rhoi 75% o'r penderfyniadau cyn pen 10 niwrnod gwaith ar ôl y gwrandawiad	→	Cyrhaeddwyd y targed mewn 88% o'r achosion
Targed: Ymdrin â 75% o Apeliadau/ Hawliadau cyn pen 20 wythnos	→	Cyrhaeddwyd y targed mewn 96% o'r achosion

Cwynion

Derbyniodd y Tribiwnlys gwynion mewn perthynas ag un achos yn ystod y flwyddyn.

Adran 3 – Ein Cwsmeriaid

Yn yr adran hon:

- Arolwg boddhad cwsmeriaid

Arolwg boddhad cwsmeriaid

Mae'r Tribiwnlys yn ceisio ei orau i wella'r modd y darperir gwasanaethau. Y nod yw sicrhau bod ein cwsmeriaid wrth wraidd popeth a wnawn.

Caiff ein harolwg boddhad cwsmeriaid ei rannu ar ddiwedd achos. Mae canlyniadau'r arolwg yn ein galluogi i ddeall yn well beth yw anghenion ein cwsmeriaid, a bydd yn rhoi cipolwg gwerthfawr ar yr hyn y mae'r Tribiwnlys yn ei wneud yn dda, yn ogystal â thynnu sylw at y meysydd hynny y mae angen eu gwella.

Daeth 13 ffurflen wedi'i llenwi i law yn ystod cyfnod 2015-2016. Rydym yn casglu gwybodaeth mewn perthynas â'r meysydd canlynol:

Cyfathrebu

Dywedodd 100% ein bod yn ymateb yn brydlon. Dywedodd 100% ein bod ni'n gwrtais ac yn barod i helpu. Dywedodd 85% fod yr wybodaeth y gwnaethom ei darparu yn gywir ac yn glir. Nid oedd y 15% sy'n weddill yn cytuno nac yn anghytuno.

Gwasanaeth

Dywedodd 100% eu bod yn gallu deall y broses, gyda phawb yn dweud bod y taflenni canllaw roeddem ni wedi'u darparu yn ddefnyddiol. Dywedodd 100% ein bod wedi prosesu eu cais yn effeithlon.

Gwrandawiad

Dywedodd 90% eu bod yn fodlon ar leoliad y man lle cynhaliwyd y gwrandawiad. Dywedodd 100% bod ein staff wedi bod yn gwrtais ac yn barod i helpu yn y gwrandawiad.

Adran 4 – Blaenoriaethau Busnes

Yn yr adran hon:

- Blaenoriaethau busnes ar gyfer 2016-2017

Mae'n bwysig bod TAAAC yn parhau i ddatblygu er mwyn darparu'r gwasanaethau gorau posibl i'n defnyddwyr. Mae'r adran hon yn ymwneud â sut y bydd TAAAC yn adeiladu ar yr hyn y mae wedi'i gyflawni drwy ganolbwyntio ar flaenoriaethau busnes a'n hymrwymiad i'n defnyddwyr.

Blaenoriaethau busnes ar gyfer 2016-2017

- Cynllunio a chynnal digwyddiad hyfforddi i'r holl aelodau
- Cynllunio a chynnal cyfarfodydd Grŵp Defnyddwyr yng ngogledd a de Cymru
- Trefnu a chynnal gwerthusiadau gyda'r holl aelodau;
- Parhau i fonitro a diweddaru gwefan Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru;
- Parhau i fwydo i mewn i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru);
- Darparu gwasanaeth effeithiol ac effeithlon, bodloni dangosyddion perfformiad allweddol ac ymateb i adborth ar arolygon boddhad cwsmeriaid.

Adran 5 – Gwariant

Yn yr adran hon:

- Gwariant ar gyfer blwyddyn ariannol 2015-2016

Gwariant ar gyfer blwyddyn ariannol 2015-2016

Cynnwys	Swm
Ffioedd a Threuliau'r aelodau ar gyfer achosion tribiwnlys	£,101,000
Digwyddiadau'r Tribiwnlys (gan gynnwys costau gwrandawiadau)	£24,000
Cyfanswm*	£125,000

* wedi'i dalgrynnu i'r £1,000 agosaf